| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Rhagfyr 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau/ Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Teitl:** | **Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gynllunio Ariannol** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Cyflwyno adroddiad terfynol Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau cynllunio ariannol Sir Ddinbych.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Derbyn barn y Pwyllgor ar yr adroddiad.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi sylwadau fel y bo'n briodol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghlwm ac yn hunanesboniadol.

4.2 Mae'r canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffyg uniongyrchol
- Mae gan y Cyngor hanes da o ran cyflawni arbedion a nodwyd o fewn blwyddyn yn erbyn y camau gweithredu a gymeradwywyd
- Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor yn y dyfodol i sicrhau arbedion yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol
- Nid oes cynigion nac argymhellion yn sgil yr adolygiad hwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae rheolaeth ariannol gadarn yn hanfodol i ddarparu holl wasanaethau'r Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost yn codi o’r cynigion

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb oherwydd nad yw’n berthnasol. Cynhelir Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gynigion penodol lle bo'n briodol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Amh.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gan y Cyngor reolaeth ariannol gadarn er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni'r arbedion sydd eu hangen rŵan ac yn y dyfodol.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Amh.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Dan adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i’r Cyngor wneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli ei gyllid yn gywir.

**Swyddog Cyswllt:** Pennaeth Cyllid ac Asedau Ffôn: 01824 706140